# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | William Evans | Adran Etholiadol: | Pontybrenin |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor misol ar ddydd Sadwrn rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf) yng Nghlwb Pêl-droed Pentre'r Ardd. Hefyd, euthum i gymorthfeydd heddlu a, lle bo modd, roeddwn yn ymateb i gwynion neu ymholiadau'n brydlon.

Fel aelod a chyn-Faer Llwchwr, rwy'n mynd i gyfarfodydd misol ac mae cofnodion y rhain ar gael ar wefan y cyngor tref yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae'r cyngor tref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr Wardiau Pontybrenin a Llwchwr trwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor sir. Er enghraifft, cyfleusterau hamdden yn y Neuadd Les, Heol Woodlands, arddangosfeydd basgedi crog, Gorymdaith Lusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr a darparu seddi yn y gymuned.

Lluniais a dosbarthais gylchlythyr i'm holl etholwyr, yn seiliedig ar bynciau roeddwn yn ystyried yr hoffai f'etholwyr gael gwybodaeth amdanynt. Rwy'n cael nifer helaeth o alwadau ffôn ac e-byst gan breswylwyr yn gofyn am gyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion personol ac roeddwn i'n barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol. Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn fy ward ac yn rhoi gwybod i adran briodol y cyngor am ddiffygion megis tyllau yn yr heol, goleuadau stryd wedi'u torri mewn ardaloedd preswyl, arwyddion heol wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

Ymwelais â'r holl safleoedd ceisiadau cynllunio a oedd yn effeithio ar Ward Pontybrenin a gwneuthum ymweliadau safle'n ôl yr angen. Roeddwn yn cysylltu â'r tîm Heddlu Cymdogaeth lleol yng Ngorseinon ac yn cyfeirio cwynion gan breswylwyr lleol megis cyflymder cerbyd modur gorfodol, parcio difeddwl, rhwystr cerbyd modur a sbwriel. Hefyd, rhoddais wybod i swyddogion gorfodi'r cyngor am bob cwyn a gefais ynglŷn â thorri gorchmynion rheoleiddio traffig, megis parcio'n anghyfreithlon (troseddau parcio ar linellau melyn) a gofynnais am eu presenoldeb pryd bynnag roedd ei angen.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Y Cabinet | 18 | / | 18 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Y cyngor | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 5 | / | 5 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 62 | / | 64 | 97 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Roedd fy mhortffolio Aelod y Cabinet yn cynnwys Dysgu a Sgiliau, Dysgu Gydol Oes, Hyfforddiant Cyflogaeth a Dysgu Seiliedig ar Waith, y mae'n parhau bod gennyf gyfrifoldeb strategol amdanynt. Rwy'n parhau i fod yr aelod arweiniol a'r hyrwyddwr dros blant a phobl ifanc yn unol â gofynion Deddf Plant 2004. Roedd rhan bwysig o'm gwaith yn cynnwys ymweliadau â'r 104 o ysgolion trwy gydol yr awdurdod a rhoi penderfyniadau polisi ar waith ar faterion addysgol.

Roeddwn yn aelod o'r pwyllgorau canlynol nad ydynt wedi'u rhestru yn rhan 2 uchod.
1. Cadeirydd y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc. (Amlasiantaeth).
2. Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
3. Grŵp Llywio Partneriaeth Ddysgu Abertawe.
4. Grŵp Llywio Addysg o Safon 2020. (Cadeirydd)
5. Cymdeithas Cyrff Llywodraethu Abertawe.
6. Fforwm Cyllideb Addysg.
7. RhAG (Grŵp Rhieni dros Addysg Gymraeg)
8. Y Cyd-bwyllgor Addysg Rhanbarthol (ERW)
9. Bwrdd Arweinyddiaeth Addysg.

***Cyrff Allanol (2103-2014***)
1. Cyngor Ymgynghorol i Fyfyrwyr ar Addysg Grefyddol.
2. Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon. (Cadeirydd)
3. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf.
4. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin.
5. Ward Llafur Pontybrenin.

### Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n parhau i gynnwys f'etholwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol y Strategaeth a Ffefrir a'i effaith bosibl ar ardal Pentre'r Ardd yn benodol.

Fel rhan o dîm y Cabinet, roedd gennyf ran hynod bwysig (sy'n parhau) wrth gyflwyno canlyniadau llwyddiannus ar ymrwymiadau Maniffesto Llafur mis Mai, 2012. Mae cyflwyno addysg o safon/sicrhau canlyniadau bywyd gwell i bob dysgwr a mynd i'r afael â thlodi'n ddwy o'r blaenoriaethau yn y ddogfen honno.

### Adran 5: Dysgu a Datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

Hefyd, dechreuais raglen datblygu ar gyfer aelodau etholedig mewn perthynas â chydraddoldeb – mae hon yn ar waith dros y blynyddoedd dinesig 2013-2014 a 2014-2015.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Mae gwaith yn symud ymlaen ar gyswllt beicio Pontybrenin o Bentre'r Ardd i Dregŵyr, ond mae hwn wedi'i rwystro oherwydd materion tir cyfreithiol sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Gwlad yr Haf.

Mae'r datblygiad tai newydd gan Persimmon Homes yn Heol Casllwchwr (86 o dai) bellach wedi dechrau. Dyrannwyd y safle hwn yn flaenorol ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Trefol cyn 2008. Mae'r safle'n debygol o gael ei gwblhau yn ystod 2014/15.

Mae'r cyfraniad ariannol i alluogi'r man gollwng a chodi newydd y tu cefn i Ysgol Pontybrenin bellach wedi'i sicrhau a rhagwelir y bydd gwaith adeiladu'n dechrau'n nes ymlaen eleni.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog lefel uwch (Aelod y Cabinet) - £31,900 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.14 |